Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

# Gweminar Allbynnau a Chanlyniadau CFfGGC

16 Medi 2025

Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council · Cyngor Gwynedd · Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council · Wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Agenda

- Croeso
- Trosolwg o'r Allbynnau a Chanlyniadau
- Diffiniadau a thystiolaeth awgrymedig
- Proses Sampl dilysu
- Materion yn codi gyda hawliadau
- Crynodeb a cloi

# Cwestiynau

Codwch law os hoffech ofyn cwestiwn

Teipiwch gwestiynau yn y Sgwrs (chat)

# Trosolwg o Allbynnau a Chanlyniadau

**Allbynnau Prosiect (28 ar gael - OP01 i OP28)**

**Allbynnau** yw'r **cynhyrchion neu wasanaethau uniongyrchol, diriaethol** a ddarperir gan brosiect.
Maent fel arfer yn fesuradwy ac maent yn ganlyniadau uniongyrchol gweithgareddau a ariennir gan UKSPF.

**Enghreifftiau**:

OP01 - Faint o ofod masnachol sydd wedi'i gwblhau neu ei wella
OP04 - Swm y tir wedi'i adfer
OP09 - Nifer y mentrau sy'n derbyn grantiau
OP20 - Nifer y bobl yn ailhyfforddi

# Trosolwg o Allbynnau a Chanlyniadau

**Canlyniadau'r Prosiect (30 ar gael – OC01 i OC30)**

**Canlyniadau** yw'r **newidiadau** neu'r **buddion hir dymor** sy'n deillio o'r allbynnau . Maent yn adlewyrchu effaith yr ymyrraeth ar unigolion, cymunedau neu fusnesau.

**Enghreifftiau**:

OC05 - Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
OC09 - Swyddi wedi'u diogelu o ganlyniad i gefnogaeth
OC18 - Gwell niferoedd ymgysylltu
OC24 - Pobl sy'n ennill cymhwyster neu'n cwblhau cwrs yn dilyn cymorth

# Dogfen Ganllawiau Allweddol

- "**Rhestr Allbynnau a Chanlyniadau a Rhestr Gofynion Tystiolaeth CFfG Gogledd Cymru 2025-26 v1.1**"

- Mae'r daenlen hon yn
  - Darparu y diffiniad o bob allbwn a chanlyniad
  - Penodi'r uned fesur ar gyfer pob dangosydd
  - Disgrifio'r dystiolaeth sydd ei hangen i gadarnhau cyflawniad pob allbwn a chanlyniad

Defnyddiwch y cod QR hwn i weld y ddogfen hon ar ein gwefan.

# Rhestr Allbynnau a Chanlyniadau a Rhestr Gofynion Tystiolaeth CFfG Gogledd Cymru 2025-26 v1.1

| | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cod Allbwn** | **Dangosydd Allbwn ar gyfer Adrodd** | **Uned Fesur** | **Diffiniad** | **Ffurflen Hawlio** | **Gwirio a Samplu** | **Tystiolaeth sydd angen ei gasglu a'i gadw gan y Derbynydd Grant ar gyfer Awdit** |
| 2 | **Busnes ac Asedau Cymunedol** | | | | | | |
| 3 | OP1 | Faint o le masnachol sydd wedi'i gwblhau neu ei wella | Metr sgwâr (M2) | Cyfanswm y metrau sgwâr o arwynebedd llawr masnachol newydd wedi'i gwblhau neu ei wella. Mae gofod masnachol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: ofod manwerthu, lletygarwch, diwydiannol neu swyddfeydd.<br>- Mae man manwerthu yn golygu lleoliad sefydlog ar gyfer arddangos neu fanwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: archfarchnadoedd, siopau sy'n gwerthu dillad, nwyddau electroneg, dodrefn, llyfrau, ac ati.<br>- Mae gofod lletygarwch yn golygu gofod sydd â'i brif ddiben ar gyfer llety neu wasanaeth bwyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: bwytai, caffis, tafarndai, bariau, arlwyo, gwestai, meysydd gwersylla a llety arall.<br>- Mae gofod swyddfa yn golygu lleoliad sefydlog lle mae'r prif weithgareddau'n ymwneud â gwasanaethau ariannol, gwasanaethau proffesiynol (ac eithrio gwasanaethau iechyd neu feddygol), neu unrhyw wasanaethau priodol eraill mewn ardal fasnachol, busnes neu wasanaeth.<br>- Mae gofod diwydiannol yn golygu gofod a ddefnyddir ar gyfer prosesau diwydiannol, storio neu ddosbarthu.<br>- Mae gofod masnachol arall yn golygu mannau nad ydynt yn gyhoeddus neu gymunedol, a nad ydynt yn perthyn i'r categorïau uchod.<br>- Mae cwblhau yn golygu bod y cyfleusterau wedi'u cwblhau'n ffisegol a bod y gofod yn barod i'w feddiannu ar unwaith. Dylid ystyried adeilad yn gyflawn unwaith y bydd ar y rhestr ardrethu annomestig.<br>- Mae gwelliant yn golygu ychwanegu, adnewyddu neu atgyweirio cyfleusterau gyda'r nod o greu gofod gwell. Nid yw'n cynnwys cynnal a chadw cyfleusterau presennol. | Cadarnhad o'r niferoedd a gyflawnwyd.<br>Datganiad ysgrifenedig o'r dysitolaeth sydd ar gadw gan y derbynydd grant. | Cyfeiriad (gan gynnwys cod-post), metrau sgwâr wedi gwblhau neu wella. Nodwch os yw wedi 'cwblhau' neu 'wella'. Lluniau cyn ag ar ôl or adeiliad neu ofod. | • Darluniau adeiladu sy'n dangos yr union ardal/oedd a'r metrau sgwâr sy'n cael ei hawlio. Dylai'r darluniau hyn fod o ffynhonnell gymwys fel pensaer.<br>• Amserlen ardal<br>• Cais cynllunio<br>• Lluniau cyn ac ar ôl o'r adieliad neu ofod<br>• Tystysgrif cwblhau<br>• Pob caniatâd sy'n ymwneud â'r gwaith/adeiladwaith ayyb h.y. caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth materion ar gadw cysylltiedig; Caniatâd rheoliadau adeiladu<br>• Costau Cynllunio a rhaglenni adeiladu<br>• Copïau o arolygon<br>• Contractau cysylltiedig e.e. prydles, TR1, copïau swyddfa gofrestru Tir a chynlluniau teitl, contract adeiladu<br>• Dogfennaeth ffurfiol arall sy'n ymwneud â'r broses (e.e., Tystysgrifau Perfformiad Ynni, memorandwm cyd-ddealltwriaeth a grëwyd, cynlluniau llawr, ayyb. |
| 4 | OP2 | Faint o fannau gwyrdd neu las sy'n cael eu creu neu eu gwella | Metr sgwâr (M2) | Cyfanswm y metrau sgwâr o fannau gwyrdd neu las wedi'u cwblhau neu eu gwella.<br>- Mae mannau gwyrdd neu las yn golygu unrhyw dir neu ddŵr dan lystyfiant o fewn ardal drefol neu fan cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys: parciau, gerddi cyhoeddus, meysydd chwarae, mannau chwarae i blant, coedwigoedd a mannau naturiol eraill, ardaloedd o laswellt, mynwentydd, rhandiroedd, yn ogystal â choridorau gwyrdd fel llwybrau. Nid yw'n cynnwys mannau palmantog rhwng neu o amgylch adeiladau; am hyn, gweler y dangosyddion sy'n ymwneud â "tir cyhoeddus."<br>- Mae creu yn golygu creu man gwyrdd neu las nad oedd yn bodoli o'r blaen ac mae'r gofod yn agored i'r cyhoedd.<br>- Mae gwell yn golygu ychwanegu, adnewyddu neu atgyweirio cyfleusterau a thirlunio. Nid yw'n cynnwys cynnal a chadw mannau gwyrdd presennol, megis torri gwair, tocio a glanhau. | Cadarnhad o'r niferoedd a gyflawnwyd.<br>Datganiad ysgrifenedig o'r dysitolaeth sydd ar gadw gan y derbynydd grant. | Lleoliad (gan gynnwys cyfersurynnau), metrau sgwâr wedi gwblhau neu wella. Nodwch os yw wedi 'cwblhau' neu 'wella'. Lluniau cyn ag ar ôl or adeiliad neu ofod. | • Darluniau adeiladu sy'n dangos yr union ardal/oedd a'r metrau sgwâr sy'n cael ei hawlio. Dylai'r darluniau hyn fod o ffynhonnell gymwys fel pensaer.<br>• Amserlen ardal<br>• Cais cynllunio<br>• Lluniau cyn ac ar ôl o'r adieliad neu ofod<br>• Tystysgrif cwblhau<br>• Pob caniatâd sy'n ymwneud â'r gwaith/adeiladwaith ayyb h.y. caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth materion ar gadw cysylltiedig; Caniatâd rheoliadau adeiladu<br>• Costau Cynllunio a rhaglenni adeiladu<br>• Copïau o arolygon<br>• Contractau cysylltiedig e.e. prydles, TR1, copïau swyddfa gofrestru Tir a chynlluniau teitl, contract adeiladu<br>• gwaelodlin bioamrtwiaeth ac asesiad enillion net. |

# Gofynion Tystiolaeth

- Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ond mae'n anelu at ddarparu cysondeb ar draws y rhanbarth. Bydd mathau eraill o dystiolaeth yn cael eu hystyried ond mae angen eu cytuno ymlaen llaw.
- Os yw'r dystiolaeth yr hoffech ei chadw yn wahanol i'r rhestr, trafodwch gyda'ch arweinydd Awdurdod Lleol neu Gyswllt Aml-ALl yn y lle cyntaf.
- Mae'n ofynnol i dderbynwyr grant adrodd ar gyflawni allbynnau a chanlyniadau eu prosiect fel rhan o'r broses hawlio.

**PWYSIG!** Dim ond pan fydd gennych y dystiolaeth i'w cefnogi dylech adrodd ar gyflawni allbynnau a chanlyniadau'r prosiect.

# Canllawiau Swyddogol Llywodraeth y DU

[Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU 2025-26: Gwybodaeth Ychwanegol]

**2. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Diffiniadau o allbynnau a chanlyniadau**

2.4. Gall buddiolwyr (pobl, busnesau, adeiladau neu ardaloedd o dir) a gynorthwywyd yn 2022-25 gael eu cynorthwyo eto yn 2025-26. Ni ddylid adrodd arnynt eto gan ddefnyddio'r un allbwn neu ganlyniad oni bai bod y cymorth a gânt yn sylweddol wahanol i'r cymorth a ddarparwyd yn 2022-25.

Defnyddiwch y cod QR hwn i weld y canllaw hwn ar wefan gov.uk.

# Pwy ellir ei gyfrif?

- Gall buddiolwyr h.y. y bobl, busnesau, adeiladau neu ardaloedd o dir a gefnogir yn 2022-25 gael eu cefnogi eto yn 2025-26.

  **FODD BYNNAG!**

- Dim ond os yw'r gefnogaeth yn **sylweddol wahanol** i'r hyn a gawsant yn 2022-25 y gellir eu hadrodd/hawlio eto.

- **Enghraifft**:
  Mae prosiect o 2022-25 yn parhau yn 2025-26 heb unrhyw newid mewn gweithgareddau ac yn cefnogi 100 o fusnesau yn 2025-26.
  Os oedd 30 o'r 100 busnes eisoes wedi'u datgan yn hawliadau 2022-25, yna dim ond 70 y gellir eu hadrodd yn 2025-26.

# Tydi cefnogaeth DDIM yn sylweddol wahanol os yw'n

- Ailadrodd yr un gweithgaredd gyda'r un unigolyn neu sefydliad

- Nid yw'n cynnig unrhyw gynnwys, dull cyflwyno neu ddwyster newydd

- Nid yw'n arwain at ganlyniad newydd neu ganlyniad gwell

- Os yw'n cynnal neu'n barhad o gymorth blaenorol heb newid

Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'ch Tîm SPF Lleol neu Arweinydd Aml-sir yn y lle cyntaf.

# Proses Sampl Dilysu

- Bydd pob hawliad a gyflwynir yn destun sampl dilysu.
- Fel arfer byddwch yn derbyn y cais sampl ar ôl i'ch hawliad gael ei brosesu.
- Gellir dewis sampl o:

  **Rhestr trafodion gwariant**

  **Allbynnau a gyflawnwyd hyd yma**

  **Canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma**

  **Caffael**

  **Gweithgareddau marchnata – brandio**

Os ydych chi'n cynnwys dogfennau caffael a marchnata gyda'ch Adroddiad Cynnydd, bydd yn lleihau nifer y samplau dilysu y gofynni'r amdanynt.

Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council
wrexham wrecsam

# Proses Sampl Dilysu

- Bydd yr e-bost cais samplo yn cynnwys y daenlen "Sampl Dilysu Hawliad Grant" ar gyfer yr hawliad.

- Mae gan y daenlen 3 tab
  - **Canllawiau –** yn darparu canllawiau a chyfarwyddiadau ar y broses samplu.
  - **Samplau Dilysu –** yn rhestru'r eitemau a ddewiswyd i'w samplu.
  - **Ffurflen Gyflwyno** – er mwyn i chi ei chwblhau a'i dychwelyd gyda'ch tystiolaeth.

# Proses Sampl Dilysu

Arddangosiad

# Proses Sampl Dilysu

- Rhaid i chi ymateb o fewn **10 diwrnod gwaith** i'r cais.

- **PEIDIWCH** â chyflwyno'ch ymateb nes bod y tab 'Ffurflen Gyflwyno' wedi'i chwblhau'n llawn a bod gennych ffeil PDF ar gyfer pob eitem a restrir yn y sampl.

- Dim ond un cyflwyniad y dylid ei wneud - unwaith y bydd yr holl dystiolaeth yn barod a gellir ei darparu gyda'i gilydd.

# Problemau a cyffredin  ffurflenni hawlio

- Ddim yn sgrolio i lawr ac ar draws y dudalen i weld y ddogfen gyfan.
- Ddim yn cwblhau'r holl adrannau gorfodol
- Tab datganiad heb ei lofnodi
- Rhifau Cyfeirnod Dogfen dyblyg yn cael eu defnyddio ar y rhestr Trafodion – colofn A.
- Dyddiadau anfoneb/trafodion nad ydynt yn cyfateb i ddyddiadau prosiect neu hawliad
- Fformiwlâu a fewnbynnir yn y colofnau Is-thema, felly creu anghysondeb yn y cyfansymiau.
- Peidio â dyrannu gwariant i bob awdurdod perthnasol ar brosiect Aml-Sir.

# Crynodeb a Cloi

- Cymerwch amser i adolygu'r diffiniadau a'r mathau o dystiolaeth a awgrymir i gefnogi eich targedau allbynnau a chanlyniadau
- Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â newid neu cyflawni eich targedau
- Cysylltwch â ni os oes angen i chi drafod y sampl dilysu a ddewiswyd
- Defnyddiwch yr adroddiad cynnydd i gadarnhau pa fesurau rydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion/pryderon.
- Cadw rhestr lawn o'r sylfaen dystiolaeth a gedwir i gefnogi'r cyflawniadau
- **Gweminar Nesaf – Dydd Iau 2 Hydref, 2025**

# Gwefan

Mae deunyddiau cymorth prosiect ar gael ar ein gwefan:

www.FfyniantGyffredinGogledd.Cymru

Os rydych angen y sleidiau mewn fformat gwahanol, rhowch wybod i ni.

# Cwestiynau

- Os yw'r holl ffeiliau PDF y gofynnwyd amdanynt yn fwy na'n terfyn maint ffeil e-bost ar gyfer cyfanswm atodiadau, byddem fel arfer yn cywasgu'r rhain i un ffolder ZIP, a yw hyn yn iawn?
  Yndi, gallwn dderbyn ffeiliau zip.